Arolygiaeth Gofal
Cymru
Care Inspectorate
Wales

# Adroddiad Arolygu

## Cylch Chwarae Trebannws

Ysgol Gynradd Trebannws, Trebannws Pontardawe, Abertawe, SA8 4BL

07375125403

Cynhaliwyd yr ymweliad arolygu ar 04/02/2026

## Gwybodaeth am y Gwasanaeth:

| | |
|---|---|
| Gweithredir gan: | Julie Corry |
| Math o Ofal: | Gofal Dydd Plant |
| Lleoedd cofrestredig: | 12 |
| Prif iaith/ieithoedd: | Cymraeg a Saesneg |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg: | Ydy |
| Yn cael cyllid i ddarparu addysg ran-amser y blynyddoedd cynnar: | Ydy |
| Hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru: | Mae'r darparwr yn hyrwyddo, yn rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl. |

## Graddau:

| | |
|---|---|
| Llesiant | Rhagorol |
| Gofal a Datblygiad | Da |
| Yr Amgylchedd | Da |
| Arweinyddiaeth a Rheolaeth | Da |

## Crynodeb:

Mae'r plant yn mwynhau treulio amser yng Nghylch Chwarae Trebannws. Maent yn gwybod y bydd y staff yn gwrando ar eu syniadau, eu barn a'u hawgrymiadau. Mae ganddynt ymdeimlad clir o berthyn ac maent yn ymgysylltu'n gadarnhaol â'r rhai o'u cwmpas. Mae'r plant yn dilyn eu diddordebau'n llawn ac yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau annibyniaeth.

Mae'r staff yn cefnogi diogelwch, llesiant a datblygiad y plant yn gyson. Maent yn rheoli risgiau yn dda ac yn cynnal safonau hylendid da. Mae'r staff yn annog ac yn hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol drwy ganmoliaeth, cyfathrebu clir a sensitifrwydd. Maent yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau ac adnoddau sy'n dilyn diddordebau'r plant. Mae'r staff yn olrhain cynnydd y plant ac yn gweithio gyda rhieni ac asiantaethau allanol, sy'n sicrhau bod y plant yn cael cymorth sy'n seiliedig ar wybodaeth.

Mae'r arweinwyr yn cynnal amgylchedd diogel a glân ar y cyfan, gan ddefnyddio rhestrau gwirio, trefniadau glanhau rheolaidd ac asesiadau blynyddol. Mae ardaloedd dan do ac awyr agored yn

cynnig digon o le ac adnoddau i'r plant eu harchwilio a'u defnyddio. Mae cynllun yr amgylchedd a'r cyfleusterau storio yn sicrhau bod y plant yn gallu cael gafael ar gyfarpar yn annibynnol.

Mae'r arweinwyr yn gweithio'n gadarnhaol i gynnal a chadw'r lleoliad a'i ddatblygu. Mae ganddynt amrywiaeth o ddogfennau a gwybodaeth sy'n cefnogi'r staff ac yn rhoi profiad cadarnhaol i deuluoedd. Mae'r arweinwyr yn adolygu'r ymarfer, yn casglu adborth ac yn myfyrio ar ansawdd y gofal. Mae gwiriadau recriwtio, hyfforddiant a chymorth i'r staff ar waith. Mae'r lleoliad yn cyfathrebu â'r rhieni yn gyson, a nododd teuluoedd brofiadau cadarnhaol.

## Canfyddiadau:

### Llesiant — Rhagorol

Mae gan y plant lais cryf yn y lleoliad. Gallant wneud dewisiadau am y pethau sy'n effeithio arnynt. Er enghraifft, gallant ddewis ble i chwarae, pa adnoddau i chwarae â nhw, a ph'un a ydynt am ymuno â gweithgareddau. Mae'r plant yn cyfathrebu'n hyderus iawn am fod eu dymuniadau, eu hwyliau a'u hanghenion yn cael eu hystyried yn llawn. Maent yn rhannu eu safbwyntiau, eu syniadau a'u diddordebau â'r staff ac ymwelwyr â'r lleoliad. Er enghraifft, gofynnodd y plant gwestiynau i ni am bwy oeddem a pham roeddem yn y lleoliad.

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac yn gartrefol iawn, ac maent yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi. Mae'n amlwg bod ganddynt ymdeimlad cryf o berthyn, ac maent yn symud yn hyderus o amgylch yr ardaloedd chwarae, gan ofyn am deganau neu gymorth. Mae'r plant yn gyfarwydd iawn ag arferion y lleoliad. Er enghraifft, pan ddywedodd y staff ei bod yn “amser tacluso”, dechreuodd y plant roi'r teganau a'r adnoddau i gadw.

Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r oedolion yn gyson dda. Mae'r plant yn ymateb yn gadarnhaol i gwestiynau a cheisiadau'r staff ac yn dangos balchder pan fydd y staff yn diolch iddynt am helpu. Mae'r plant yn cydweithredu'n dda o ystyried eu hoedran a'u cam datblygu. Maent yn rhannu adnoddau â'i gilydd yn hapus ac yn mwynhau rhannu eu profiadau. Er enghraifft, roedd y plant yn gyffrous wrth baratoi bwyd a steilio gwallt aelod o'r staff gan ei fod yn 'ben-blwydd' arno. Maent yn gwneud ffrindiau ac yn mwynhau chwarae gyda'i gilydd. Er enghraifft, ymunodd un plentyn â'i ffrind ar y ffrâm ddringo, gan ofyn iddo “where are we going?”, ac atebodd y ffrind drwy ddweud ei fod yn mynd ar antur.

Mae'r plant yn frwdfrydig ac yn dangos diddordeb yn eu chwarae a'u dysgu. Maent yn archwilio'r ardaloedd chwarae a dysgu gwahanol yn frwdfrydig ac yn mwynhau rhannu'r hyn y maent wedi'i gyflawni â'r staff. Er enghraifft, pan oeddent yn yr awyr agored, roedd y plant yn awyddus i ddweud wrth y staff bod yr iâ wedi toddi, a gwnaeth hyn ysbrydoli trafodaeth bellach am y rheswm pam roedd yr iâ wedi toddi a'r tywydd. Mae'r plant yn mwynhau amrywiaeth dda o gyfleoedd diddorol a gallant ddewis ymlacio a chael cyfnodau tawel.

Mae gan y plant hunangymhelliant i ddechrau eu chwarae eu hunain ac i ddylanwadu ar eu tasgau a'u gweithgareddau. Maent yn canolbwyntio am gyfnodau addas ar gyfer eu hoedran ac yn cwblhau'r gweithgareddau y maent yn eu dewis yn llwyddiannus. Er enghraifft, wrth arllwys diod i'w hunain, gwnaethant ganolbwyntio nes bod y dŵr wedi cyrraedd y dyfnder dymunol cyn cau'r tap ac atal y llif. Mae'r plant yn dechrau cydweithio i ddatrys problemau a chefnogi ei gilydd. Er enghraifft, pan oedd plentyn yn ei chael hi'n anodd codi ei got oddi ar y bachyn, daeth plentyn hŷn, talach, i godi'r got a'i roi i'r plentyn â balchder. Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i ddatblygu eu sgiliau

annibyniaeth, sy'n eu galluogi i wneud pethau drostynt eu hunain yn llwyddiannus, gan gynnwys gweini eu byrbryd eu hunain, golchi eu dwylo neu wisgo eu cotiau.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae'r staff yn deall y polisïau a'r gweithdrefnau i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, gweithgareddau corfforol, diogelwch a llesiant personol, ac yn eu rhoi ar waith mewn ffordd effeithiol ac arloesol. Maent yn gweithio'n gyson i gefnogi ei gilydd a hyrwyddo diogelwch. Er enghraifft, wrth symud rhwng yr ardaloedd dan do ac awyr agored, mae'r staff yn sicrhau bod pawb yn gwybod ble y maent. Mae'r staff yn nodi ac yn rheoli risgiau yn rhagweithiol, gan gynnwys tacluso adnoddau er mwyn sicrhau nad ydynt yn achosi peryglon baglu neu lanhau diodydd wedi'u gollwng yn gyflym. Mae'r staff yn rhoi arferion glanhau cadarn ac arferion hylendid da ar waith. Maent yn annog ac yn cefnogi'r plant i olchi eu dwylo pan fo angen ac yn dilyn arferion gorau ar gyfer paratoi bwyd yn ogystal â gwisgo cyfarpar diogelu personol priodol wrth newid cewynnau. Mae'r staff yn monitro'r plant yn effeithiol, gan symud o gwmpas yr ardaloedd chwarae a chefnogi chwarae'r plant. Maent yn cofnodi amrywiaeth o wybodaeth i gadw'r plant yn ddiogel, gan gynnwys cofnodion damweiniau a digwyddiadau, ac yn sicrhau bod y rhieni yn cydnabod y cofnodion. Mae gan y staff ddealltwriaeth glir o'u cyfrifoldebau i ddiogelu'r plant a gwnaethant ateb cwestiynau am yr hyn y byddent yn ei wneud pe bai ganddynt bryderon yn ymwneud ag amddiffyn plant yn hyderus.

Mae'r staff yn deall y polisi rheoli ymddygiad ac yn rhoi strategaethau rheoli ymddygiad cadarnhaol ar waith yn gyson. Maent yn dangos diddordeb gwirioneddol yn y plant, gan gymryd rhan lawn yn eu trafodaethau ac ymateb i'w ceisiadau. Mae'r staff yn defnyddio technegau tynnu sylw, canmoliaeth a chyfathrebu agored â'r plant i gefnogi a hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol. Er enghraifft, roedd y staff yn atgoffa'r plant i ddweud "os gwelwch yn dda" yn ystod amser byrbryd; pan oedd un plentyn yn gwrtais, cafodd hyn ei ddathlu ac roedd plant eraill hefyd yn dangos moesau da. Mae'r staff yn ymateb yn gyson; maent yn gwrando ar safbwyntiau'r plant ac yn eu parchu. Mae'r rhyngweithio yn gadarnhaol iawn, gan ddangos cynhesrwydd a charedigrwydd. Mae'r staff yn sensitif i anghenion a phrofiadau plant unigol. Maent yn addasu eu hiaith ar gyfer anghenion a dealltwriaeth y plant. Er enghraifft, roeddent yn defnyddio adnoddau cyfathrebu i helpu plentyn i symud o un gweithgaredd i un arall.

Mae'r staff yn ymrwymedig i gynnig amrywiaeth eang o weithgareddau chwarae a dysgu. Maent yn darparu teganau, adnoddau a chyfarpar yn yr amgylchedd sy'n cefnogi syniadau a diddordebau'r plant ac yn sbarduno eu dychymyg. Er enghraifft, maent yn defnyddio adnoddau 'go iawn' yn y gornel gartref i feithrin chwilfrydedd a hyrwyddo eu dealltwriaeth o eitemau bob dydd. Mae'r staff yn ymwybodol o ddatblygiad unigol y plant ac yn defnyddio eu diddordebau i gefnogi eu gwaith cynllunio. Maent yn arsylwi ar gynnydd y plant ac yn ei adolygu, gan ddefnyddio'r cofnodion hyn i gynllunio ar gyfer eu camau nesaf. Maent yn defnyddio adegau 'waw' i ddathlu cyflawniadau'r

plant. Maent yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r rhieni drwy luniau a negeseuon rheolaidd drwy eu ap. Mae'r staff yn cefnogi'r plant ag anghenion ychwanegol ac yn darparu ar eu cyfer, gan ddefnyddio proffiliau un dudalen a thrafodaethau â'r rhieni i ddeall anghenion unigol y plant. Mae ganddynt ddealltwriaeth glir o ba gamau i'w cymryd os bydd ganddynt bryderon am ddatblygiad plentyn ac maent yn gweithio'n dda gydag asiantaethau allanol i gefnogi'r plant.

## Yr Amgylchedd — Da

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac mewn cyflwr da. Mae'r safle yn ddiogel, ac mae llyfr ymwelwyr ar waith. Maent yn cwblhau rhestr wirio ddyddiol o risgiau posibl er mwyn monitro ac ymdrin ag unrhyw broblemau a all godi yn yr amgylchedd. Maent yn cynnal trefniadau glanhau rheolaidd sy'n adlewyrchu arferion hylendid da, ac maent yn glanhau'r safle yn drylwyr bob mis er mwyn sicrhau bod pob ardal yn cael ei thargedu'n rheolaidd. Mae'r arweinwyr yn cwblhau asesiadau risg tân ac asesiadau risg cyffredinol boddhaol, a chaiff y rhain eu hadolygu bob blwyddyn. Fodd bynnag, nid yw'r cofnodion ysgrifenedig hyn yn nodi pob risg yn yr amgylchedd. Mae tystiolaeth yn dangos bod y cyfarpar gwresogi a diffodd tân a'r offer cludadwy yn cael eu profi'n flynyddol, a bod yswiriant addas ar waith. Mae'r arweinwyr a'r staff yn cynnal ymarferion rheolaidd ar gyfer gwagio'r adeilad os bydd tân, sy'n sicrhau bod y plant yn gwybod beth i'w wneud mewn argyfwng.

Mae'r arweinwyr a'r staff yn sicrhau bod yr amgylchedd yn cynnwys ardal chwarae dan do dda er mwyn i'r plant symud yn rhydd. Gallant ddefnyddio'r brif ystafell chwarae, yr ardal storio ar gyfer cotiau a bagiau, yr ystafell ymolchi a'r ardal awyr agored, sydd o faint da. Mae digon o deganau, adnoddau a chyfarpar i alluogi'r plant i ddatblygu eu dychymyg, eu chwilfrydedd, eu hiaith a'u sgiliau corfforol. Mae'r arweinwyr a'r staff yn trefnu'r amgylchedd yn briodol i gynnig amrywiaeth foddhaol o gyfleoedd chwarae sy'n addas ar gyfer y rhan fwyaf o'r ystodau oedran dan sylw. Mae'r systemau storio lefel isel yn galluogi'r plant i gael gafael ar eitemau ac adnoddau yn annibynnol ac i ddilyn eu diddordebau'n llawn.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod bron pob plentyn yn gallu cael gafael ar amrywiaeth eang o ddodrefn, teganau a chyfarpar sydd o ansawdd da ac yn addas ar gyfer oedran y plant. Mae'r rhain yn cefnogi syniadau, diddordebau a dychymyg y plant. Mae'r arweinwyr yn darparu adnoddau i helpu i ddatblygu arferion gofal personol y plant, gan gynnwys potiau a stepiau i'w helpu i gyrraedd y sinciau. Mae'r ardal awyr agored yn cynnwys adnoddau a chyfarpar sy'n cefnogi ac yn annog datblygiad corfforol y plant, a defnyddir yr ardal hon mor aml â phosibl. Mae'r arweinwyr a'r staff yn datblygu chwilfrydedd y plant a'u mwynhad o'r byd o'u cwmpas drwy gynnig cyfleoedd i ymgysylltu â natur, defnyddio deunyddiau wedi'u hailgylchu wrth chwarae, a dathlu diwylliannau gwahanol a'u gwyliau.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

**Da**

Mae'r arweinwyr yn gweithio'n gadarnhaol i ddatblygu, cefnogi a darparu lleoliad buddiol. Mae ganddynt ddatganiad o ddiben clir sy'n adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir. Mae'r arweinwyr wedi datblygu amrywiaeth o bolisïau clir a gwerth chweil, sy'n cefnogi'r broses o redeg y lleoliad. Fodd bynnag, nid yw pob un o'r polisïau'n adlewyrchu'r lleoliad yn llawn. Caiff y rhain eu hadolygu o leiaf bob blwyddyn a'u rhannu â'r staff pan gaiff newidiadau eu gwneud. Mae'r arweinwyr yn casglu gwybodaeth addas am y plant yn eu gofal, gan gynnwys gwybodaeth am eu hanghenion unigol, ffurflenni cydsynio a manylion personol. Caiff y rhain eu cadw'n ddiogel ac maent yn sicrhau bod y lleoliad yn gallu cynnig profiad cadarnhaol i'r plant a'u teuluoedd. Mae gan yr arweinwyr ddealltwriaeth dda o'u cyfrifoldebau i hyrwyddo'r Gymraeg. Maent yn cyflawni rhwymedigaethau'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg.

Mae'r arweinwyr yn ymgysylltu â'r plant, eu rhieni/gofalwyr a'r staff i adolygu ansawdd y gofal. Maent yn casglu adborth mewn amrywiaeth o ffyrdd ac yn ei ddefnyddio i'w helpu i ddatblygu'r lleoliad. Mae'r arweinwyr yn llunio adroddiad myfyriol, sy'n ymateb i syniadau neu sylwadau a godwyd ac yn tynnu sylw at yr hyn y maent yn ei wneud yn dda. Caiff hwn ei gwblhau bob blwyddyn a'i rannu ag eraill. Mae'r arweinwyr yn sicrhau eu bod yn ymgysylltu ag Arolygiaeth Gofal Cymru. Er enghraifft, maent yn cwblhau hysbysiadau am newidiadau i'r staff neu ddiweddariadau i'r datganiad o ddiben. Maent hefyd yn sicrhau eu bod yn cwblhau eu Datganiad Hunanasesu Gwasanaeth pan fo angen.

Mae'r arweinwyr yn dilyn proses recriwtio ddiogel er mwyn diogelu'r plant. Roedd pob un o'r ffeiliau staff a welsom yn dangos tystiolaeth bod gwiriadau cyn cyflogi ar waith a bod yr arweinwyr wedi sicrhau bod y staff yn gymwysedig. Mae'r broses rheoli perfformiad yn dda ac mae'n annog ymarferwyr i gymryd rhan mewn amrywiaeth o sesiynau hyfforddiant ac i gymhwyso'r hyn a ddysgir ganddynt. Er enghraifft, mae'r staff wedi cwblhau hyfforddiant yn cynnwys Signalong, sy'n cefnogi iaith, dysgu ac arsylwadau. Cynhelir sesiynau goruchwylio ac arfarniadau da yn rheolaidd, sy'n cynnig cyfleoedd i'r staff fynegi unrhyw bryderon, trafod yr hyn sy'n mynd yn dda, y meysydd lle mae angen cymorth, a thargedau ar gyfer y dyfodol. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda, eu bod yn cydweithio'n dda iawn â'i gilydd, a'u bod wedi meithrin cydberthnasau da â'r teuluoedd. Mae'r arweinwyr yn sicrhau eu bod yn bodloni'r cymarebau staffio ac yn cofnodi pan fydd plant yn bresennol a phwy sy'n gofalu amdanynt yn glir.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr holl systemau cyfathrebu ac ymgysylltu â rhieni yn dda. Maent yn rhannu diweddariadau dyddiol am weithgareddau'r plant drwy'r ap ac yn rhannu gwybodaeth â'r rhieni/gofalwyr pan fyddant yn casglu eu plant. Dywedodd y rhieni wrthym eu bod yn hapus iawn â'r lleoliad, bod y cyfathrebu'n dda, bod y staff yn hawdd mynd atynt, yn barod i helpu ac yn meddu ar ddealltwriaeth dda, a bod eu plant wrth eu bodd yn mynychu'r lleoliad.

# Meysydd i'w gwella a nodwyd

Lle byddwn yn nodi **Meysydd i'w Gwella** ond na fyddwn wedi canfod bod y bobl yn wynebu risg uniongyrchol neu sylweddol, byddwn yn eu trafod â'r darparwr. Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu a byddwn yn ystyried y mater eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

Lle byddwn yn canfod bod yn **rhaid gwella'r** canlyniadau i'r bobl **yn sylweddol** a/neu fod risg i lesiant y bobl, byddwn yn nodi meysydd **Gweithredu â Blaenoriaeth**. Yn yr amgylchiadau hyn, byddwn yn cyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth i'r Darparwr, a rhaid iddo gymryd camau ar unwaith i wneud gwelliannau. Byddwn yn cynnal arolygiad arall ymhen chwe mis er mwyn cadarnhau bod gwelliannau wedi'u gwneud a bod y canlyniadau i'r bobl wedi gwella.

**Ni nododd AGC unrhyw feysydd i'w gwella yn dilyn yr arolygiad hwn.**

**Nid yw AGC wedi cyhoeddi unrhyw Hysbysiadau Gweithredu â Blaenoriaeth yn dilyn yr arolygiad hwn.**

## Safonau Gofynnol Cenedlaethol

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, byddwn yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
|---|---|
| | Ni nodwyd unrhyw argymhellion mewn perthynas â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn ystod yr arolygiad hwn |

## Arferion Gorau

Pan fyddwn o'r farn y byddai hynny'n ddefnyddiol, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud argymhellion arferion gorau. Nod yr argymhellion hyn yw annog lleoliadau sy'n gwneud yn dda i ddod hyd yn oed yn well wrth helpu plant i ffynnu.

| Argymhelliad/argymhellion |
|---|
| Datblygu asesiadau risg ysgrifenedig y lleoliad ymhellach er mwyn nodi pob risg yn y lleoliad. |

This report is also available in English

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2026.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*